Dadansoddi ar gyfer Polisi
YMCHWIL GYMDEITHASOL Y LLYWODRAETH
GSR
GOVERNMENT SOCIAL RESEARCH
Analysis for Policy

Llywodraeth Cynulliad Cymru
Welsh Assembly Government

Ymchwil gymdeithasol
Social research

www.cymru.gov.uk

# Arolwg i Nifer a Mynychder Achosion o Fwlio mewn Ysgolion yng Nghymru. Crynodeb



# Arolwg i Nifer a Mynychder Achosion o Fwlio mewn Ysgolion yng Nghymru

## Crynodeb


## Uned Pobl a Gwaith

## Rhodri Bowen gyda Dr Duncan Holtom



Rhagor o wybodaeth:

Joanne Starkey

Adran y Prif Weinidog a'r Cabinet

Llywodraeth Cynulliad Cymru

Cathays Park

Caerdydd

CF10 3NQ

Ffôn: 02920 826734

e-bost: joanne.starkey@cymru.gsi.gov.uk



© Crown Copyright

## 1. CEFNDIR

1.1 Comisiynwyd yr Uned Pobl a Gwaith gan Lywodraeth Cynulliad Cymru i ymgymryd ag arolwg o fwlio mewn ysgolion yng Nghymru. Mae'r arolwg yn canolbwyntio ar brofiadau disgyblion o fwlio gan ddisgyblion eraill yn ystod eu cyfnod yn yr ysgol.

1.2 Roedd yr arolwg yn anelu at ddarparu tystiolaeth sylfaenol o "fynychder a nifer yr achosion o fwlio" ymysg disgyblion oedran ysgol gorfodol yng Nghymru, a chaniatáu i Lywodraeth y Cynulliad "fesur newidiadau yn y dyfodol i lefel bwlio yng Nghymru". Amcanion penodol yr arolwg oedd:

- Sefydlu nifer yr achosion o fwlio mewn ysgolion cynradd ac uwchradd, ac unedau cyfeirio disgyblion trwy gynnal arolwg cynrychioliadol o ddisgyblion ysgol, gan gasglu gwybodaeth am lefelau adrodd am fwlio gan y rhai sy'n bwlio, ynghyd â chan ddioddefwyr bwlio;
- Pennu mesuriad sylfaenol ar lefel bwlio yn 2009;
- Nodi natur, graddau a'r rhesymau dros fwlio a briodolir i oedran, rhyw, ethnigrwydd, rhywioldeb, anabledd, amddifadedd economaidd canfyddedig ac iaith disgybl;
- Deall lefel a'r math o seiberfwlio sy'n digwydd – trwy negeseuon testun, e-bost, stafelloedd sgwrsio ac yn y blaen;
- Asesu pa mor ymwybodol yw disgyblion o ffynonellau cymorth os oes yna broblemau bwlio, a pholisïau gwrth-fwlio mewn ysgolion, a rhwydweithiau cefnogi sydd ar gael i gefnogi pobl ifanc, ysgolion a rhieni;
- Asesu barn disgyblion am ddulliau ysgolion o drechu bwlio, yn enwedig gan y disgyblion hynny a gafodd eu bwlio; a
- Darparu tystiolaeth empirig dros ddatblygu polisïau ac argymhellion sy'n ceisio gwella dulliau a pholisïau gwrth-fwlio o fewn ysgolion, awdurdodau addysg lleol a Llywodraeth y Cynulliad.

1.3 Roedd yr arolwg yn defnyddio holiaduron hunanlenwi, a gafodd eu cwblhau gan ddisgyblion ym mlynyddoedd 4, 6, 7 a 10 mewn ysgolion a fu'n cymryd rhan, rhwng Ebrill 2009 a Gorffennaf 2009. Bu cyfanswm o 7,448 disgybl o 167 ysgol a 5 uned cyfeirio disgyblion yn cymryd rhan yn yr arolwg. Mae'r adroddiad hwn yn canolbwyntio ar fwlio mewn ysgolion cynradd ac uwchradd yn unig, oherwydd bod nifer yr ysgolion arbennig ac unedau cyfeirio disgyblion a gymerodd ran yn rhy isel i fod yn gynrychioliadol.

1.4 Cafodd yr holiaduron eu seilio ar holiadur Bwlis/Dioddefwyr Olweus[i], sef mesur a gydnabyddir yn rhyngwladol ac a gafodd ei ddefnyddio yn eang mewn astudiaethau eraill. Roedd yr holiaduron a ddefnyddiwyd ar gyfer blynyddoedd 6, 7, a 10 yn debyg iawn ac felly gellir cymharu'r canlyniadau hyn. Fodd bynnag, cafodd yr holiadur ar gyfer blwyddyn 4 ei symleiddio, gan olygu ar gyfer mwyafrif y cwestiynau na ellir mynd ati'n uniongyrchol i gymharu'r canfyddiau ar gyfer disgyblion blwyddyn 4 â grwpiau blwyddyn eraill.

1.5 Er mwyn sicrhau bod yr arolwg mor gynrychioliadol â phosib, cafodd y sampl o ysgolion cynradd ei gosod mewn haenau ar sail iaith ddysgu'r ysgol (Saesneg/Cymraeg), cyfran y disgyblion â hawl i brydau ysgol am ddim (sef arwydd o anfantais economaidd-gymdeithasol) ac ethnigrwydd y disgyblion. Yn sgil y nifer is o ysgolion uwchradd ac Unedau Cyfeirio Disgyblion yng Nghymru, gwahoddwyd pob un i gymryd rhan yn yr arolwg ac ar ôl hynny fe sicrhawyd ansawdd y data rhag fod unrhyw duedd.

1.6 Gan mai dyma'r tro cyntaf i arolwg cenedlaethol cynhwysfawr gael ei gynnal i fwlio yng Nghymru, ble bo modd, byddwn yn cymharu ag astudiaethau tebyg sy'n defnyddio'r un mesur ar gyfer bwlio.


## 2. CANFYDDIADAU

### Nifer yr achosion o fwlio

2.1 **Rhagymadrodd:** Bu'r arolwg yn casglu gwybodaeth am fwlio dros gyfnod o ddau fis oherwydd fe wyddom fod cyfnodau amser hwy yn llai dibynadwy oherwydd atgofion y disgyblion am fwlio[ii]. Dyma'r un cyfnod o amser ag a ddefnyddir yn holiadur Olweus/Dioddefwyr. Felly, oni nodir yn wahanol, mae'r holl gyfraddau bwlio yn yr adroddiad hwn ar gyfer y ddau fis diwethaf.

2.2 Ar gyfer pob un o'r gwahanol fathau o fwlio a fesurwyd, gofynnwyd i ddisgyblion a oeddynt wedi profi bwlio o'r fath ac os oeddynt, pa mor aml. Mae graff 2.1 yn dangos bod mwyafrif y disgyblion a ddywedodd iddynt gael eu bwlio, yn cael eu bwlio yn anaml.

**Graff 2.1 mynychder ac amlder y disgyblion yng Nghymru a gafodd eu bwlio o fewn y ddau fis diwethaf**




2.3 Ni ellir cymharu'r canlyniadau ar gyfer blwyddyn 4 yn uniongyrchol (dywedodd 15% o ddisgyblion eu bod yn cael eu bwlio "trwy'r amser"), ac felly ni chawsant eu cynnwys.

2.4 **Mynychder ac amlder bwlio:** Er mwyn rhoi darlun llawn o fynychder ac amlder bwlio yng Nghymru, gofynnwyd hefyd i ddisgyblion ym mlynyddoedd 6, 7 a 10 a oeddynt wedi cael eu bwlio yn y flwyddyn ysgol ddiwethaf. Cyfrannau'r disgyblion a ddywedodd iddynt gael eu bwlio o fewn y flwyddyn ysgol ddiwethaf oedd:

- 47% ym mlwyddyn 6
- 44% ym mlwyddyn 7
- 25% ym mlwyddyn 10

2.5 **Mynychder bwlio difrifol:** Er bod cyfran y disgyblion a ddywedodd iddynt gael eu bwlio yn y ddau fis diwethaf yn gostwng gydag oedran, nid yw cyfran y disgyblion ym mlynyddoedd 6, 7, a 10 a ddywedodd iddynt gael eu bwlio am "tua blwyddyn" (8% - 7% - 6% yn y drefn honno) yn dangos yr un gostyngiad gydag oedran. Mae hyn yn gyson ag ymchwil arall, gan awgrymu bod rhwng 5% a 10% o boblogaeth y disgyblion yn profi bwlio "difrifol".[iii] Hefyd, roedd y disgyblion hynny ym mlynyddoedd 6, 7, a 10 a gafodd eu bwlio am "tua blwyddyn" yn dueddol o roi gwybod am amlder llawer uwch ar gyfer bwlio: roeddynt o leiaf saith gwaith yn fwy tebygol o roi gwybod am gael eu bwlio "lawer gwaith bob wythnos" ac roeddynt yn llai tebygol o gytuno eu bod yn hyderus y gallai'r ysgol eu cynorthwyo petaent yn cael eu bwlio. O ddadansoddiad mwy ar y grŵp hwn o ddisgyblion a gâi eu bwlio'n barhaus, ni ddangoswyd unrhyw wahaniaeth yn nodweddion yr ysgolion[1] yr oedd y grŵp hwn o ddisgyblion yn eu mynychu, o gymharu â disgyblion nad oeddynt wedi'u bwlio am gyfnod cyn hired. Hefyd, nid oedd gwahaniaeth yng nghyfran y merched neu'r bechgyn a gâi eu bwlio'n barhaus.

2.6 **Lleoliad bwlio:** Ym mlynyddoedd 4, 6, a 7, buarth yr ysgol oedd y lleoliad mwyaf cyffredin ar gyfer bwlio o fewn yr ysgol. Ym mlwyddyn 10, mae hyn yn newid, gyda'r ystafell ddosbarth yn lleoliad mwyaf cyffredin, ac yna buarth yr ysgol.

2.7 **Bwlio eraill:** Mae 18% o ddisgyblion ym mlwyddyn 6, gan ostwng i 11% o ddisgyblion ym mlwyddyn 10, yn cyfaddef iddynt fwlio disgyblion eraill "fel rhan o grŵp". Mae cyfrannau llai yn cyfaddef iddynt fwlio eraill "ar eu pen eu hunain". Er

[1] Nodweddion yr ysgol oedd: yr iaith ddysgu (h.y. Cyfrwng Saesneg neu Gymraeg); cyfran y disgyblion y mae eu hethnigrwydd yn rhywbeth heblaw gwyn; cyfran y disgyblion sydd â hawl i brydau ysgol am ddim, sef dangosydd anfantais economaidd-gymdeithasol, a maint yr ysgol.

enghraifft, ym mlynyddoedd 7 a 10, mae tua 7% o ddisgyblion yn nodi iddynt fwlio eraill “ar eu pen eu hunain”.

**Natur a graddau bwlio**

2.8 Mae’r adran hon yn amlinellu’r canlyniadau allweddol am gyfraddau adrodd am fwlio, a’r cyfraddau arsylwi ar fwlio (gweld eraill yn cael eu bwlio). Mae’r cyfraddau arsylwi yn aml yn uwch na’r cyfraddau adrodd. Y rheswm o bosib yw fod pob digwyddiad unigol (a gofnodir fel un person yn dweud iddo/iddi gael ei fwlio) yn cael ei weld gan lawer o blant eraill, a bydd pob un o’r rheiny yn dweud iddo/iddi weld rhywun yn cael ei fwlio. Efallai fod yr amrywiad yn ymwneud hefyd â gwahaniaethau ym marn dioddefwyr ac arsyllwyr o ran a yw digwyddiad yn fwlio ai peidio.

2.9 **Oed:** Y mae perthynas wrthdro rhwng oed disgybl a mynychder ac amlder y bwlio y maent yn ei brofi: mae disgyblion hŷn yn dueddol o brofi llai o fwlio na disgyblion ifanc (gweler graff 2.1 tudalen 5). Mae hyn yn gyson ag astudiaethau eraill i fwlio yn y Deyrnas Unedig[iv]. Mae mathau ac amlder cymharol bwlio yn eithaf sefydlog ar draws y pedwar grŵp oedran. Er enghraifft, y math mwyaf cyffredin o fwlio ar draws pob grŵp oedran yw rhywun yn galw enwau arnynt neu eu pryfocio mewn ffordd gas, a’r lleiaf cyffredin yw rhywun yn mynd ag arian neu bethau eraill oddi wrthynt neu’n difrodi eu pethau.

2.10 **Rhyw:** Roedd merched a bechgyn yn dueddol o brofi gwahanol fathau o fwlio. Roedd merched ym mhob grŵp blwyddyn yn fwy tebygol na bechgyn o roi gwybod am fathau anuniongyrchol o fwlio, fel cael eu heithrio o weithgareddau yn fwriadol. Roeddynt hefyd yn fwy tebygol o wynebu seiberfwlio. Er enghraifft, ym mlwyddyn 7, roedd merched dair gwaith yn fwy tebygol o roi gwybod iddynt gael eu bwlio trwy wefannau cymdeithasol (16% o ferched o gymharu â 5% ar gyfer bechgyn). Hefyd, ym mlynyddoedd 6 a 10, roedd merched yn fwy tebygol o roi gwybod iddynt gael eu bwlio o fewn y flwyddyn ysgol ddiwethaf (52% o ferched a 43% o fechgyn ym mlwyddyn 6, a 29% o ferched a 21% o fechgyn ym mlwyddyn 10). Roedd merched ym mlwyddyn 6 hefyd yn fwy tebygol o roi gwybod iddynt gael eu bwlio o fewn y ddau fis diwethaf (36% o ferched a 28% o

fechgyn ym mlwyddyn 6). Roedd bechgyn ym mlynyddoedd 6, 7, 10 yn fwy tebygol o roi gwybod am fwlio homoffobig, ac roedd bechgyn ym mlynyddoedd 4, a 7 yn fwy tebygol o nodi iddynt gael eu bwlio yn gorfforol. Er enghraifft, roedd bechgyn ym mlwyddyn 7 yn fwy tebygol o gael eu taro, cicio, gwthio, neu eu cloi i mewn na merched (19% o fechgyn o gymharu ag 8% o ferched).

2.11 **Hil ac ethnigrwydd:** Mae'r arolwg yn dangos mai cyfran isel o'r disgyblion sy'n dweud iddynt gael eu bwlio oherwydd eu hil neu ethnigrwydd, gydag 1% o ddisgyblion ym mlwyddyn 4 yn cael eu bwlio ("trwy'r amser"); a rhwng 1% a 2% o ddisgyblion ym mlynyddoedd 6, 7 a 10 yn dweud iddynt gael eu bwlio. Fodd bynnag, dywedodd rhwng 12% o ddisgyblion ym mlwyddyn 7, gan godi i dros 20% o ddisgyblion ym mlwyddyn 10, iddynt weld eraill yn cael eu bwlio oherwydd eu hil neu ethnigrwydd.

2.12 Mae astudiaethau wedi awgrymu bod bwlio hiliol yn gallu bod yn anodd i rai plant neu bobl ifanc ei ddehongli[v]. Felly, gofynnwyd cwestiynau eraill ym mlynyddoedd 7 a 10 am faterion sy'n aml yn gysylltiedig ag ethnigrwydd, megis a oedd disgyblion yn profi bwlio oherwydd eu crefydd neu ddiwylliant a chredoau. Dywedodd cyfran isel o ddisgyblion (2%) iddynt gael eu bwlio oherwydd eu crefydd a nododd ychydig yn fwy bod 'diwylliant a chredoau' yn rhesymau (3%-4%).

2.13 **Rhywioldeb:** Gofynnwyd i ddisgyblion ym mlynyddoedd 6, 7, a 10 a gawsant eu bwlio gan ddisgyblion eraill gydag "enwau cas, sylwadau, neu ystumiau oedd ag ystyr rhywiol"[2]. Dyma'r cyfrannau a roddodd wybod am hyn:

- 19% o ddisgyblion ym mlwyddyn 6;
- 15% o ddisgyblion ym mlwyddyn 7: a
- 10% o ddisgyblion ym mlwyddyn 10.

[2] Ni ofynnwyd y cwestiwn hwn i ddisgyblion ym mlwyddyn 4.

Mae hyn yn dangos bod cyfran gymharol uchel o ddisgyblion, yn enwedig ym mlynyddoedd 6 a 7, yn profi'r math hwn o fwlio, o'i gymharu â rhai mathau eraill o fwlio.

2.14 Gofynnwyd hefyd i ddisgyblion ym mlynyddoedd 6, 7, a 10 a oeddynt yn cael eu "bwlio mewn ffordd homoffobig, e.e. cael eu galw'n hoyw mewn ffordd gas, boed hynny'n wir ai peidio." Mae hyn yn mesur mynychder ac amlder bwlio o natur homoffobig, yn hytrach na chyfran y disgyblion sy'n cael eu bwlio oherwydd eu rhywioldeb. Yn amodol ar y cafeat hwn, mae'r arolwg yn dangos, ym mlwyddyn 6, bod 22% o ddisgyblion wedi'u bwlio mewn ffordd homoffobig, gan ostwng i 9% ym mlwyddyn 10.

2.15 Roedd cyfran y disgyblion a ddywedodd iddynt weld eraill yn cael eu bwlio mewn ffordd homoffobig yn uchel, ac yn eithaf cyson ar draws blynyddoedd 6, 7, a 10, gyda 40% neu fwy o ddisgyblion yn dweud iddynt weld eraill yn cael eu bwlio yn y ffordd hon.

2.16 **Anabledd:** dyma gyfrannau'r disgyblion ym mlynyddoedd 4, 6, 7 a 10 a ddywedodd iddynt gael eu bwlio ar sail eu hanabledd:

- 1% o ddisgyblion ym mlwyddyn 4 yn dweud eu bod yn cael eu bwlio "trwy'r amser";
- 4% o ddisgyblion ym mlwyddyn 6 yn dweud iddynt gael eu bwlio o fewn y ddau fis diwethaf; a
- 2% o ddisgyblion ym mlynyddoedd 7 a 10 yn dweud iddynt gael eu bwlio o fewn y ddau fis diwethaf.

2.17 Cyfran y disgyblion a ddywedodd iddynt weld eraill yn cael eu bwlio oherwydd eu hanabledd oedd 20% ar gyfer blwyddyn 6 ac 19% ar gyfer blwyddyn 7, gan godi i 24% ym mlwyddyn 10.

2.18 **Anawsterau dysgu:** Gofynnwyd i ddisgyblion a oeddynt wedi cael eu bwlio oherwydd eu hanawsterau dysgu neu a oeddynt wedi gweld eraill yn cael eu

bwlio oherwydd eu hanawsterau dysgu. Dyma'r cyfrannau a roddodd wybod am fwlio oherwydd eu hanawsterau dysgu:

- 2% o ddisgyblion ym mlwyddyn 4 yn cael eu bwlio "trwy'r amser";
- 9% o ddisgyblion ym mlwyddyn 6
- 7% o ddisgyblion ym mlynyddoedd 7 a
- 4% o ddisgyblion ym mlwyddyn 10 yn cael eu bwlio o fewn y ddau fis diwethaf.

2.19 Mae'r cyfraddau hyn yn ymddangos yn uchel o gymharu â'r amcangyfrif o gyfran y disgyblion ag anghenion addysgol arbennig (0.5%-1%).[3] Fodd bynnag, efallai fod "anawsterau dysgu" wedi'i ddehongli'n fras gan ddisgyblion ac mae'n bosib fod disgyblion heb anghenion addysgol arbennig yn dal ag anghenion dysgu ychwanegol.

2.20 Cyfran y disgyblion a ddywedodd iddynt weld eraill yn cael eu bwlio oherwydd eu hanawsterau dysgu oedd 29% ar gyfer blwyddyn 6 a 30% ar gyfer blwyddyn 7, gan godi i 36% ym mlwyddyn 10.

2.21 **Amddifadedd economaidd canfyddedig:** roedd y dadansoddiad ar fwlio a briodolir i amddifadedd economaidd yn canolbwyntio ar gyfran y disgyblion ym mlynyddoedd 6, 7 a 10 a ddywedodd[4] iddynt gael eu bwlio oherwydd "diffyg arian neu beidio â bod â rhai pethau":

- 10% o ddisgyblion ym mlwyddyn 6;
- 8% o ddisgyblion ym mlwyddyn 7; a
- 4% o ddisgyblion ym mlwyddyn 10

2.22 Dadansoddwyd a chymharwyd ymatebion disgyblion o ysgolion gyda gwahanol gyfrannau o ddisgyblion sydd â hawl i brydau ysgol am ddim hefyd,

[3] Amcangyfrifir bod rhwng 0.5-1% o'r boblogaeth ddisgyblion ag anghenion difrifol a chymhleth ac yn gymwys i fod ar ddatganiad a bod hyd at tua 4.5% ag anghenion llai cymhleth sy'n cael eu bodloni trwy Weithredu gan yr Ysgol a Mwy.
[4] Ni ofynnwyd y cwestiwn hwn i ddisgyblion ym mlwyddyn 4.

sef arwydd o anfantais economaidd-gymdeithasol. Dangosai'r dadansoddiad hwn fod disgyblion ym mlwyddyn 7 mewn ysgolion â chyfran uchel o ddisgyblion sydd â hawl i brydau ysgol am ddim, yn fwy tebygol o gael eu bwlio o fewn y flwyddyn ysgol nag ysgolion â chyfran isel o ddisgyblion sydd â hawl i brydau ysgol am ddim. Mae hyn yn gyson â rhai astudiaethau yn y Deyrnas Unedig[vi] a ddangosodd gyswllt rhwng anfantais economaidd-gymdeithasol a chynnydd ym mynychder bwlio.

2.23 Hefyd, mewn ysgolion uwchradd â chyfran uchel o ddisgyblion sydd â hawl i brydau ysgol am ddim, roedd disgyblion yn dueddol o adrodd am gyfraddau bwlio uwch a briodolir i rai nodweddion penodol. Er enghraifft, ym mlynyddoedd 7 a 10, roedd disgyblion mewn ysgolion â chyfran uchel o ddisgyblion sydd â hawl i brydau ysgol am ddim, yn fwy tebygol o weld eraill yn cael eu bwlio oherwydd eu hethnigrwydd a'u hedrychiad nag ysgolion â chyfran isel o ddisgyblion sydd â hawl i brydau ysgol am ddim. Nid yw'r wybodaeth a gasglwyd yn yr arolwg yn darparu tystiolaeth ynghylch pam mae'r gwahaniaethau hyn yn bodoli, ac efallai fod cysylltiadau achosol eraill, er enghraifft, yn yr ysgolion sydd â chyfran uchel o ddisgyblion sydd â hawl i brydau ysgol am ddim, mae'n bosib fod cyfran uwch o ddisgyblion â'r nodweddion hyn.

2.24 **Iaith**: Wrth ddadansoddi i ba raddau roedd yna fwlio a briodolir i iaith, buom yn canolbwyntio ar gyfrannau'r disgyblion ym mlynyddoedd 6, 7 a 10 a ddywedodd[5] iddynt gael eu bwlio oherwydd yr "iaith roeddwn yn ei siarad":

- 4% o ddisgyblion ym mlynyddoedd 6 a 7; a
- 3% o ddisgyblion ym mlwyddyn 10.

## Lefel a math o seiberfwlio sy'n digwydd

2.25 Gofynnwyd i ddisgyblion am dri math o seiberfwlio: bwlio trwy wefannau cymdeithasol, fel Facebook a Bebo, bwlio gan ddefnyddio ffonau symudol a bwlio gan ddefnyddio e-bost. Yn gyffredinol dywedodd:

[5] Ni ofynnwyd y cwestiwn hwn i ddisgyblion ym mlwyddyn 4.

- 17% o ddisgyblion ym mlwyddyn 6,
- 15% o ddisgyblion ym mlwyddyn 7, ac
- 11% o ddisgyblion ym mlwyddyn 10

iddynt brofi un neu fwy o'r mathau hyn o seiberfwlio.

2.26 Fel mae Tabl 2.1 yn dangos, o blith y tri math gwahanol o seiberfwlio, roedd bwlio gan ddefnyddio gwefannau cymdeithasol yn gyson uwch na mathau eraill o seiberfwlio.

**Tabl 2.1. Cyfran y disgyblion ym mlwyddyn 4 sy'n adrodd am wahanol fathau o seiberfwlio "weithiau" neu "trwy'r amser".**

| | Gwefan gymdeithasol | Ffôn symudol | E-bost |
|---|---|---|---|
| **Blwyddyn 4** | 13% | 10% | 7% |

2.27 Fel mae tabl 2.2 yn dangos, yn wahanol i fathau eraill o fwlio, bychan yw'r gostyngiad yng nghanran y disgyblion sy'n profi seiberfwlio wrth i ddisgyblion fynd yn hŷn.

**Tabl 2.2. Cyfran y disgyblion ym mlynyddoedd 6, 7 a 10 sy'n adrodd am wahanol fathau o seiberfwlio o fewn y ddau fis diwethaf.**


| | Gwefan gymdeithasol | Ffôn symudol | E-bost |
|---|---|---|---|
| **Blwyddyn 6** | 12% | 7% | 6% |
| **Blwyddyn 7** | 11% | 7% | 6% |
| **Blwyddyn 10** | 9% | 6% | 4% |

## Ymwybyddiaeth disgyblion o ffynonellau cymorth, polisïau ysgolion a rhwydweithiau cefnogi.

2.28 **Ymwybyddiaeth o ffynonellau cymorth a rhwydweithiau cefnogi:** Gofynnwyd i ddisgyblion ym mlynyddoedd 4, 6, 7 a 10 a oeddynt yn gwybod â phwy i siarad yn yr ysgol petaent yn cael eu bwlio. Mae graff 2.2 yn dangos bod

mwyafrif helaeth y disgyblion yn gwybod â phwy i siarad yn yr ysgol. Fodd bynnag, y mae niferoedd mawr o ddisgyblion o hyd nad oeddynt yn gwybod â phwy i siarad yn yr ysgol petaent yn cael eu bwlio ac mae'r cyfrannau nad ydynt yn gwybod â phwy i siarad yn cynyddu gydag oedran.

**Graff 2.2 Cyfran y disgyblion yng Nghymru oedd yn gwybod â phwy i siarad yn yr ysgol petaent yn cael eu bwlio**




2.29 **Ymwybyddiaeth o bolisïau gwrth-fwlio o fewn yr ysgol:** Dyma gyfran y disgyblion a oedd yn gwybod a oedd polisi gwrth-fwlio yn yr ysgol:

- 67% o ddisgyblion ym mlwyddyn 6;
- 65% o ddisgyblion ym mlwyddyn 7; a
- 69% o ddisgyblion ym mlwyddyn 10;

2.30 Gofynnwyd i ddisgyblion ym mlynyddoedd 4, 6, 7 a 10 a oedd athrawon neu'r cyngor ysgol wedi siarad am fwlio o fewn yr ysgol. Dyma'r gyfran a ymatebodd yn gadarnhaol:

- 84% o ddisgyblion ym mlwyddyn 4;
- 67% o ddisgyblion ym mlwyddyn 6;
- 68% o ddisgyblion ym mlwyddyn 7; a
- 72% o ddisgyblion ym mlwyddyn 10

2.31 Ac eithrio blwyddyn 4, mae cyfrannau'r disgyblion a ddywedodd fod bwlio wedi'i drafod yn eu hysgol yn debyg i gyfrannau'r disgyblion a ddywedodd eu bod yn gwybod bod gan eu hysgol bolisi gwrth-fwlio. Gall hyn ddangos y rhoddir blaenoriaeth isel i fwlio o fewn lleiafrif o ysgolion.

**Barn disgyblion am ddulliau ysgolion o drechu bwlio**

2.32 **Hyder yng ngallu'r ysgol i helpu**: Gofynnwyd i ddisgyblion a oeddynt yn "sicr" (blwyddyn 4) neu'n "hyderus" (blynyddoedd 6, 7 a 10) y gallai'r ysgol eu helpu petaent yn cael eu bwlio. Dyma'r gyfran a gytunai:

- 84% o ddisgyblion ym mlwyddyn 4;
- 70% o ddisgyblion ym mlwyddyn 6;
- 68% o ddisgyblion ym mlwyddyn 7; a
- 55% o ddisgyblion ym mlwyddyn 10.

Mae hyn yn dangos, er bod mwyafrif y disgyblion yn hyderus y gallai eu hysgol eu helpu, nad oedd cyfran fawr o'r rheiny ym mlwyddyn 10 yn hyderus.

2.33 Yn ogystal, roedd merched ym mlwyddyn 10 yn llai tebygol o fod yn hyderus na bechgyn y gallai'r ysgol eu helpu petaent yn cael eu bwlio. (52% o ferched a 59% o fechgyn).

2.34 **Barn disgyblion am sut i atal bwlio:** Ym mhob grŵp blwyddyn, y cyngor mwyaf cyffredin a roddwyd gan ddisgyblion ynghylch sut i atal bwlio oedd dweud wrth rywun, fel y staff dysgu, teulu a/neu ffrindiau. Ymhlith themâu cyffredin eraill ym mhob grŵp blwyddyn roedd cefnogi a chodi ymwybyddiaeth ar gyfer bwlis neu ddioddefwyr, megis defnyddio posteri gwrth-fwlio a llinellau cymorth, disgyblu neu gosbi'r bwlis mewn rhyw ffordd, er enghraifft, trwy wahardd, neu eu hatal rhag gwneud rhai gweithgareddau ac wynebu'r bwlis mewn rhyw ffordd, trwy er enghraifft, eu herio.

2.35 Mae poblogrwydd gwahanol awgrymiadau ynghylch sut i atal bwlio yn newid gydag oedran. Er enghraifft, wrth i ddisgyblion fynd yn hŷn roeddynt yn fwy

tebygol o awgrymu rhyw fath o ddisgyblu neu gosbi'r bwlis ac roedd disgyblion iau yn fwy tebygol o awgrymu anwybyddu neu osgoi cyswllt â'r bwli neu ddatrys y bwlio trwy geisio cyd-dynnu â nhw.

2.36 **Bodlonrwydd ag ymateb yr ysgol ymysg disgyblion a gafodd eu bwlio**: Gofynnwyd i ddisgyblion ym mlynyddoedd 6, 7 a 10 a gafodd eu bwlio, a oeddynt yn fodlon â'r ffordd roedd eu hysgol yn delio â bwlio. Roedd:

- 31% o ddisgyblion ym mlwyddyn 6 yn "cytuno'n gryf" a 40% yn "cytuno";
- 29% o ddisgyblion ym mlwyddyn 7 yn "cytuno'n gryf" a 42% yn "cytuno"; ac
- 17% o ddisgyblion ym mlwyddyn 10 yn "cytuno'n gryf" a 39% yn "cytuno".

2.37 Tra bo rhwng hanner a thua dwy ran o dair yn fodlon neu'n fodlon iawn, roedd cyfran sylweddol, yn enwedig ym mlwyddyn 10, yn "anghytuno'n gryf" neu'n "anghytuno" â'r datganiad, gan ddangos anfodlonrwydd â'r ffordd roedd eu hysgol yn delio â bwlio:

- 14% o ddisgyblion ym mlwyddyn 6;
- 12% o ddisgyblion ym mlwyddyn 7; a
- 26% o ddisgyblion ym mlwyddyn 10.


2.38 Yn ogystal, roedd merched ym mlwyddyn 10 yn llai bodlon na bechgyn â'r ffordd roedd eu hysgol yn delio â bwlio (53% o ferched a 59% o fechgyn yn "cytuno'n gryf" ac yn "cytuno").

2.39 **Wrth bwy fyddai'r disgyblion yn dweud petaent wedi cael eu bwlio?:** I disgyblion ym mlynyddoedd 6, 7, a 10 rhoddwyd pum dewis gwahanol ar gyfer nodi wrth bwy y byddent yn dweud am eu profiad o fwlio (roedd hyn yn cynnwys y dewis "neb"). Oherwydd bod disgyblion yn cael ticio mwy nag un dewis, mae'r canrannau a ddangosir ar graff 2.3 yn uwch na chant y cant.

2.40 Mae graff 2.3 yn dangos mai disgyblion ym mlynyddoedd 6 a 7 oedd fwyaf tebygol o siarad â rhywun yn eu teulu. Ym mlwyddyn 10, roeddynt yn fwy tebygol o ddweud wrth eu ffrindiau. Er bod mwyafrif y disgyblion a gafodd eu

bwlio wedi dweud wrth rywun, roedd cyfran sylweddol o ddisgyblion ym mlynyddoedd 6 a 7 ac yn arbennig ym mlwyddyn 10, heb ddweud wrth unrhyw un.

**Graff 2.3 Cyfrannau'r disgyblion yng Nghymru a gafodd eu bwlio a adroddodd wrth bwy y buont yn siarad am y profiad.**




## 3. CASGLIADAU

3.1 **Y mae tystiolaeth galonogol sy'n awgrymu bod lefelau bwlio wedi gostwng:** Mewn arolwg o ddisgyblion yng Nghymru[vii] yn 2005/2006, gwelwyd bod 36% o ddisgyblion 11 mlwydd oed, a 24% o ddisgyblion 15 mlwydd oed wedi'u bwlio o fewn y ddau fis diwethaf. Mae hyn yn uwch nag yn yr arolwg hwn, a ganfu fod 32% o ddisgyblion ym mlwyddyn 6, y mwyafrif ohonynt yn 11 mlwydd oed, a 15% o ddisgyblion ym mlwyddyn 10, y mwyafrif ohonynt yn 15 mlwydd oed, wedi'u bwlio o fewn y ddau fis diwethaf. Mae hyn yn awgrymu bod canran y disgyblion sy'n cael eu bwlio yng Nghymru wedi gostwng ers 2005/6.

3.2 **Yr angen brys i drechu bwlio sy'n digwydd yn barhaus ac aml:** Er gwaethaf y dystiolaeth galonogol sy'n awgrymu bod bwlio yn gostwng yng Nghymru, mae niferoedd mawr o ddisgyblion yn cael eu bwlio ac mae cyfran fach o ddisgyblion ym mlynyddoedd 6, 7, a 10 yn dioddef bwlio sy'n aml yn digwydd yn aml a

pharhaus dros gyfnodau hir o amser. Roedd disgyblion a brofai fwlio aml a pharhaus hefyd yn llai hyderus y gallai eu hysgol eu helpu petaent yn cael eu bwlio, o gymharu â disgyblion eraill. Roedd hyn yn ganfyddiad cyson ar draws gwahanol fathau o ysgolion gan awgrymu bod angen i bob ysgol nodi ffyrdd mwy effeithiol o ostwng y bwlio aml a pharhaus hwn a chefnogi'r disgyblion hyn.

3.3 **Yr angen brys i wella polisïau gwrth-fwlio ar gyfer disgyblion hŷn**: er bod mynychder bwlio yn gostwng gydag oedran, mae disgyblion hŷn yn dueddol o fod yn llai bodlon gyda'r gefnogaeth a gynigir gan ysgolion. Mae hyn yn arbennig o amlwg ymysg disgyblion blwyddyn 10. Gall fod angen codi ymwybyddiaeth ymysg disgyblion hŷn hefyd.

3.4 **Yr angen i bolisïau gwrth-fwlio ystyried blaenoriaethau:** Y mathau o fwlio a fu'n gyffredin yn draddodiadol (a'u lleoliadau), fel galw enwau, bwlio oherwydd edrychiad neu am fod yn wahanol, a bwlio ar y buarth neu yn y stafell ddosbarth, yw'r mwyaf cyffredin o hyd ar gyfer pob grŵp blwyddyn. Mae nifer yr achosion o rai mathau o fwlio, megis bwlio homoffobig yn gymharol uchel hefyd. Mewn cyferbyniad, mae mathau mwy newydd o fwlio, megis seiberfwlio, er nad yn ansylweddol, yn llawer llai cyffredin. Mae hyn yn nodi blaenoriaethau ar gyfer strategaethau gwrth-fwlio. Er hynny, oherwydd na wnaeth yr arolwg hwn fesur effaith gwahanol fathau o fwlio ar unigolion, mae'n bosib y bydd ysgolion yn barnu o hyd y dylid mynd ati i flaenoriaethu rhai mathau o fwlio, er bod nifer yr achosion yn isel, oherwydd eu bod yn cael effaith arbennig o negyddol ar ddisgyblion.

3.5 **Yr angen i bolisïau gwrth-fwlio ystyried gwahanol rywiau**: Bydd merched a bechgyn yn profi gwahanol fathau o fwlio i raddau gwahanol o fewn pob grŵp blwyddyn, ac mewn rhai grwpiau blwyddyn byddant yn ymateb yn wahanol i gefnogaeth ysgolion. Mae'n bwysig bod strategaethau gwrth-fwlio a chefnogaeth yn adlewyrchu'r newidiadau hyn.

---

[i] Olweus, D. 1996. *The revised Olweus Bully/Victim Questionnaire*. Deunydd heb ei gyhoeddi, Bergen, Norwy: Research Center for Health Promotion (HEMIL), Christies gate 13, N-5015 Bergen, Norwy.

[ii] Bryman, A. (2001). *Social Research Methods* Rhydychen: Gwasg Prifysgol Rhydychen

[iii] Sharp, S., Thompson, D. A., ac Arora, C. M. J. (2002) *Bullying: effective strategies for long term change.* Llundain: Routledge Falmer.

[iv] Yr Adran Plant, Ysgolion a Theuluoedd (DCSF), 2008. *Youth Cohort and Longitudinal Study of Young People in England: The Activities and Experience of 16 year olds: England 2007* [ar lein]. Yr Adran Plant, Ysgolion a Theuluoedd, Llundain. Ar gael yn: http://www.dcsf.gov.uk/rsgateway/DB/SBU/b000795/YCS_LSYPE_Bulletin_final.pdf [casglwyd 4 Chwefror, 2009];

Oliver, C. a Candappu, M., 2003. *Tackling bullying: listening to the views of children and young people* [online]. Yr Adran Addysg a Sgiliau, Llundain. Ar gael yn: http://www.dcsf.gov.uk/research/data/uploadfiles/RR400.pdf [casglwyd 13 Tachwedd, 2009];

Smith, P.K., Madsen, K. a Moody, J., 1999. What causes the age decline in reports of being bullied at school? Towards a developmental analysis of risks of being bullied. *Educational Research*, 41 (3), tt 267-285.

[v] Siann, G., Callaghan, M., Glissov, P., Lockhart, R. a Rawson, L., 1994. Who gets bullied? The effect of school, gender and ethnic group. *Educational Research*, 36 (2), tt 123–34;

Butler, V., 2007. *Young people's experiences of, and solutions to, identity related bullying: research report* [ar lein], Barnardo's Cymru. Ar gael yn: http://www.barnardos.org.uk/26211_barnardos_report_e.pdf [casglwyd 4 Chwefror, 2009]

[vi] Burns, S., 2005. *Research Update: School Bullying in Northern Ireland – It hasn't gone away you know.* [ar lein]. Ark Gogledd Iwerddon. Ar gael yn: http://www.ark.ac.uk/publications/updates/update48.pdf [casglwyd 13 Tachwedd, 2008];

Due, P., Merlo, J., Harel-Fisch, Y., Damsgaard, M.T., 2009. Socioeconomic inequality in exposure to bullying during adolescence: a comparative, cross-sectional, multilevel study in 35 countries [ar lein]. *American Journal of Public Health.* 99 (5), tt 907-914. Ar gael yn: http://www.ajph.org/cgi/content/abstract/99/5/907 [casglwyd Awst 4, 2009];

Sefydliad Iechyd y Byd (WHO), 2006. *Inequalities in Young People's Health* [Ar lein]. Sefydliad Iechyd y Byd (Ewrop). Ar gael yn: http://www.euro.who.int/Document/E91416.pdf [casglwyd 13 Tachwedd, 2008]

[vii] Sefydliad Iechyd y Byd (WHO), 2006. *Inequalities in Young People's Health* [Ar lein]. Sefydliad Iechyd y Byd (Ewrop). Ar gael yn: http://www.euro.who.int/Document/E91416.pdf [casglwyd 13 Tachwedd, 2008]